# MORGAN, DAVID (1779 - 1858), gweinidog gyda'r Annibynwyr a hanesydd



**Enw:** David Morgan
**Dyddiad geni:** 1779
**Dyddiad marw:** 1858
**Priod:** Mary Morgan (née Hughes)
**Plentyn:** Ann Bynner (née Morgan)
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Annibynwyr a hanesydd
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Hanes a Diwylliant
**Awdur:** Richard Griffith Owen

Ganwyd yn Rhagfyr 1779 yn y Ddôl Wen, Llanfihangel-y-Creuddyn, Sir Aberteifi; ei dad yn wr cefnog ei amgylchiadau ac Eglwyswr y rhan fwyaf o'i oes, ond troes at y Methodistiaid cyn y diwedd. Cafodd well addysg na'r cyffredin yn ei ddydd; yn 23 oed aeth am dymor i ysgol yn Amwythig gan fwriadu myned yn fasnachwr. Yna daeth i Fachynlleth at un John Jones y Siopwr, un o golofnau yr Annibynwyr, a'r noson gyntaf iddo yno cyfarfu â'r Parch. John Roberts, Llanbrynmair. Yn hynafgwr, tystiai iddo ddwyn olion dylanwad personoliaeth y gwr hwnnw gydol ei oes. Blinodd ar fywyd masnach ac ymhen chwe mis dychwelodd gartref i'r Dolau, Talybont, ger Aberystwyth, lle y symudasai ei deulu yn y cyfamser, gan fwriadu ymsefydlu fel amaethwr.

Priododd Mary Hughes (1782 - 1826) merch y Llwynglas ac aethant i fyw i Cerrig-cyrannau ac ymaelodi gyda'r Annibynwyr yn groes i ddymuniad eu teuluoedd. Dechreuodd bregethu yn Nhalybont o dan weinidogaeth Azariah Shadrach. Yn 1811 cymerodd ofal eglwysi Tywyn, Llanegryn, a Llwyngwril. Urddwyd ef yn yr awyr agored yn Nhywyn, Mawrth 1813, a'r flwyddyn ddilynol derbyniodd alwad i'r Graig, Machynlleth, ac arhosodd yno hyd 1836. Sefydlodd ganghennau yn Soar, Uwchygarreg; Pennal; Llanwrin; Penegoes; a'r Glasbwll. Yn 1836 symudodd i eglwys Gartside, Manceinion, ac yn 1839 i Llanfyllin lle'r arhosodd hyd nes ymddeol yn 1857. Bu farw yng Nghroesoswallt 14 Mehefin 1858 a chladdwyd ef ym mynwent capel Pendref, Llanfyllin.

Priododd ei ferch, Ann, â Thomas Bynner, Llanfyllin, dilledydd. Bu iddynt hwythau fab, David Morgan Bynner a briododd â Catherine, merch Owen Daniel, Caethle, Tywyn yn 1877 (gweler yr erthygl ar John Daniel Jones). G r cyntaf Catherine oedd Joseph David Jones.

Yr oedd yn un o arweinwyr ei enwad ac yn amlwg yng ngwleidyddiaeth ei ddydd fel Rhyddfrydwr. Ysgrifennodd lawer i'r *Dysgedydd* ac yr oedd ymhlith y rhai a ysgrifennodd erthyglau i ' *Lyfr Glas* ' John Roberts, Llanbrynmair. Eithr fel hanesydd y daeth fwyaf i amlygrwydd. Ei brif waith oedd *Hanes yr Eglwys Gristnogol*. Cyhoeddodd hefyd ddeg rhan o *Hanes Ymneillduaeth yn Nghymru*, yn bennaf hanes eglwysi Annibynnol, ond ni lwyddodd i gwpláu'r gwaith hwn; ac *Esboniad ar Lyfr y Datguddiad, a rhannau o Broffwydoliaeth Daniel*.

## Awdur

**Y Parchedig Richard Griffith Owen**, (1890 - 1973)

## Ffynonellau

*Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru*, i, 276-84

*Geirlyfr Bywgraffiadol o Enwogion Cymru* (1870), 732-3

Josiah Thomas Jones, *Geiriadur Bywgraffyddol o Enwogion Cymru* (Aberdâr 1867-70), ii, 281-3

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732870

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu